# Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 1

## Cofnodion Cryno (LC1(3)-10-10) Dyddiad: 30 Medi 2010

Mae modd gwylio'r cyfarfod hwn ar Senedd TV:

http://www.senedd.tv/archiveplayer.jsf?v=cy_200000_30_09_2010&t=0

**Amser: 09.30 – 11.09**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 1**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Rosemary Butler (Cadeirydd), Gorllewin Casnewydd
Val Lloyd, Dwyrain Abertawe
Rhodri Morgan, Gorllewin Caerdydd
Nick Ramsay, Mynwy

### Staff y Pwyllgor

Liz Wilkinson, Clerc
Claire Griffiths, Dirprwy Glerc
Stephan Davies, Cynghorydd Cyfreithiol
Ben Stokes, Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau

### Tystion

Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
Paul Bates, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
Andy Marles, Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
Richard Price, Swyddog Polisi a Chynllunio, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru

### Eitem 1: Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r cyhoedd i'r cyfarfod.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Ann Jones AC. Roedd Rhodri Morgan AC yn dirprwyo. Cafwyd ymddiheuriadau hefyd gan Eleanor Burnham AC a Chris Franks AC.

### Eitem 2: Mesur Arfaethedig Diogelwch Tân Domestig (Cymru) – sesiwn dystiolaeth 2

2.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan Colin Hanks, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru; Paul Bates, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Andy Marles, Prif Swyddog Tân, Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru a Richard Price, Swyddog Polisi a Chynllunio, Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi Cymru.

#### Camau i'w cymryd

Cytunodd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i ysgrifennu at y Cadeirydd gyda chanlyniadau ymchwiliad a gynhaliwyd gan British Automatic Fire Sprinklers Association a Rhwydwaith Chwistrellau Tân Ewropeaidd ynghylch y risg posibl o facteria'r llengfilwyr ac am gynllun adeiladau.

Cytunodd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i ymchwilio i argaeledd ystadegau ynghylch oed a'r math o eiddo sy'n gysylltiedig â marwolaethau ac anafiadau sy'n deillio o danau mewn cartrefi.

Cytunodd Gwasanaethau Tân ac Achub Cymru i ymchwilio i argaeledd ystadegau ynghylch grwpiau cymdeithasol-economaidd penodol sy'n gysylltiedig â marwolaethau ac anafiadau sy'n deillio o danau mewn cartrefi.

Cytunodd Richard Price i drafod y materion canlynol gydag aelodau o Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF) ac i ysgrifennu at y Pwyllgor am ei ganfyddiadau:

p'un ai a fyddai aelodau o'r HBF yn fwy cefnogol o'r Mesur arfaethedig pe byddai'r ddyletswydd i osod systemau llethu tân awtomatig yn gyfyngedig i fathau penodol o breswylfeydd, er enghraifft, fflatiau sy'n uwch nag un llawr ar ddeg, cartrefi gofal preswyl, mathau arbennig o dai cymdeithasol.

y goblygiadau ymarferol ac ariannol i'r diwydiant adeiladu tai o ddarparu tanciau storio a phympiau ychwanegol.

y defnydd posibl o gyfnewid cynlluniau adeiladu a mesurau diogelwch tân eraill er mwyn helpu i dalu'r costau o osod systemau llethu tân awtomatig.

goblygiadau y potensial o gyfnewid cynlluniau rhwng gwahanol fathau o ddarparwyr, er enghraifft, datblygwyr bach a mawr ac adeiladwyr unigol.